



Gweithgaredd Dysgu- Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o naw yn ymwneud â Phatagonia ar gyfer CA3.

Sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia
Mordaith y 'Mimosa', 1865
Brodorion Patagonia a'r gwladfawyr Cymreig
Dyddiau cynnar ar dir Patagonia
O ddyffryn Camwy i Gwm Hyfryd - Patagonia
Dyddiau du - llifogydd ac allfudo
Ysgolion cynnar y Wladfa
Hanes yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia
Capeli ac eglwysi'r Wladfa



Hanes yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia



Gan Culturenet Cymru

Cyflwyniad

'Ond pe ceid gwladychfa Gymreig, teimlai ymfudwyr Cymreig yn fwy cartrefol; ac ond iddynt deimlo fod sylfeini gwlad Gymreig yn cael eu gosod i lawr, lle byddai'r Senedd yn Gymreig, a'r gyfraith yn cael ei gweinyddu yn Gymraeg, byddant lawer gwrolach a mwy cyhoeddus eu hysbryd i gario allan gynlluniau gwladgarol.' Michael D. Jones, 'Gwladychfa Gymreig', c. 1860

Tasgau ac amcanion dysgu

1. Y goron
2. Diwylliant Cymreig ym Mhatagonia heddiw
3. Cymreictod
4. Diwylliant
5. Hunaniaeth y genedl
6. Arferion Cymreig
7. Cymreig


[Lawrlwytho'r Casgliad o ddelweddau a thaflenni gwaith ar gyfer y gweithgaredd hwn o Gasgliad y Werin Cymru](#)

Hanes yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia

'Ond pe ceid gwladychfa Gymreig, teimlai ymfudwyr Cymreig yn fwy cartrefol; ac ond iddynt deimlo fod sylfeini gwlad Gymreig yn cael eu gosod i lawr, lle byddai'r Senedd yn Gymreig, a'r gyfraith yn cael ei gweinyddu yn Gymraeg, byddant lawer gwrolach a mwy cyhoeddus eu hysbryd i gario allan gynlluniau gwladgarol.' Michael D. Jones, 'Gwladychfa Gymreig', c. 1860

Roedd allfudo yn agwedd bur gyffredin o fywyd Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyni economaidd oedd yn bennaf gyfrifol am achosi i filoedd o Gymry adael eu hardaloedd genedigol a cheisio bywyd gwell yn y Taleithiau Unedig. Eto, er bod gobaith am well safon byw yng Ngogledd America, roedd nifer o allfudwyr yn ymwybodol o'r perygl iddynt golli eu nodweddion Cymreig wrth iddynt ymdoddi i'r diwylliant Americanaidd. Sylwodd Michael D. Jones ar y duedd hon pan oedd ar ymweliad â'r Taleithiau Unedig ym 1848-9 a chafodd ei argyhoeddi bod angen sefydlu Gwladfa Gymreig i amddiffyn iaith, arferion a chrefydd ei gydgladwyr. Credai mai'r iaith Gymraeg oedd y pwysicaf o'r tri hyn, a bod parhad y ddau arall yn ddibynnol ar ddefnydd y Cymry ohoni. Yng ngolwg Michael D. Jones, dim ond gwladfa lle rhoddid statws swyddogol i'r iaith Gymraeg a fyddai'n caniatáu i hunaniaeth genedlaethol yr ymfudwyr flodeuo'n ddirwyst.

Llwyddwyd i wireddu'r freuddwyd hon ym mlynnyddoedd cynnar y Wladfa. Un o'r pethau olaf a wnaeth yr ymfudwyr cyn gadael Lerpwl oedd ethol deuddeg o'u plith i eistedd ar gyngor i lywodraethu'r Wladfa, a thrwy gyfrwng y Gymraeg y cofnodwyd holl weithgareddau a phenderfyniadau'r cyngor hwnnw.



Covnodion Ysgrivenydd y Wladfa 1871-2	
Tirwedd y Wladfa yn ymddangos	
36 o athletwyr, gan ymddangos yn y cyfnewid	
Chwaraeon y Wladfa yn ymddangos	19
" Athletwyr y Wladfa yn ymddangos	19
" W. W. Jones yn ymddangos	21
" W. R. Jones yn ymddangos	22
" W. R. Jones yn ymddangos	11
Cyfnewid ym 1874-5	
Chwaraeon y Wladfa yn ymddangos	
Ymddangos ym 1874-5	27
" Robert Thomas	26
" Hugh Hughes Evans	25-26
" James Jones Roberts	22
" John Mochelwyn Roberts	22
" Richard Hughes	21
" David Williams	18
" Lewis Davies	17-18
" Edward Pryor	17
" Wharney Jones & Evans Jones	16
" Lewis Jones	11

Covnodion Ysgrivenydd y Wladfa 1871-2, tudalen 1 [delwedd 1 o 15]

Fodd bynnag, wrth i'r Wladfa ddangos arwyddion llwyddiant ar ddechrau'r 1870au, dechreuodd llywodraeth Ariannin dynhau ei gafael arni yn wleidyddol. Anfonodd swyddog porthladd i'r Wladfa ym 1874 a Phrwyad ym 1875. Bu hwn yn gychwyn ar flynyddoedd o densiynau rhwng y gwladfawyr a'r awdurdodau Archentaidd yn y Wladfa. Roedd y Prwyad yn honni fod ganddo oruchafiaeth dros Gyngor y Wladfa gan danseilio amcan Michael D. Jones o sicrhau mai Cymraeg oedd yr iaith swyddogol yno.

Er gwaethaf y datblygiadau hyn, cynhelid pob math o weithgareddau cymdeithasol a chrefyddol trwy gyfrwng y Gymraeg yn Nyffryn Camwy yn y 1880au. Roedd cyhoeddi'r papur newydd 'Y Drafod' yn Ionawr 1891 yn garreg filltir bwysig yn hanes y sefydliad. Bwriad y golygydd Lewis Jones oedd defnyddio'r Drafod i gynnal a hyrwyddo diwylliant Cymreig yn y Wladfa ac ynddo ceid ysgrifau ar amrywiaeth eang o destunau.



Eto, erbyn diwedd y 1890au, roedd dyfodol y Wladfa fel cymuned Gymraeg ei hiaith o dan fygythiad. Bu lleihad yn nifer yr ymfudwyr o Gymru a chynnydd yn y nifer o fewnfudwyr o gefndiroedd diwylliannol eraill. Dangosodd y Llywodraeth fwy o awydd nag erioed i sicrhau lefel o unffurfiaeth ac undod. Ym maes addysg, er enghraifft, cyflwynwyd deddf ym 1896 i sicrhau mai Sbaeneg oedd cyfrwng addysgu yn yr holl ysgolion cynradd cenedlaethol.

Dros y degawdau canlynol, ciliodd y Gymraeg o fywyd cyhoeddus a throi'n iaith yr aelwyd a'r capel yn unig, sef statws tebyg i'r un a oedd ganddi yng Nghymru. Ond aethpwyd ymhellach na hynny. Yn y 1930au, gwaharddwyd y Cymry rhag ceisio adfywio'r iaith mewn unrhyw ffordd gan awdurdodau milwrol llywodraeth Ariannin. Er y gallai plant dderbyn rhywfaint o addysg Gymraeg yn yr Ysgol Ganolraddol a agorwyd yn Gaiman ym 1906, tywyll fu'r cyfnod hwn yn hanes yr iaith Gymraeg yn y Wladfa. Yn wir, bu'n rhaid i'r Ysgol Ganolraddol gau ei drysau ar ddechrau'r 1950au yn dilyn gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion.

Fodd bynnag, bu'r paratoadau ar gyfer canmlwyddiant y Wladfa ym 1965 yn fodd o godi ymwybyddiaeth nifer o bobl o'u tras Gymreig. Ym 1963, ail-agorwyd yr Ysgol Ganolraddol o dan arweinyddiaeth Luned Vychan Roberts de Gonzalez. Fel rhan o ddathliadau 1965, cyhoeddwyd y gyfrol 'Gwladfa Patagonia' gan R. Bryn Williams a gosodwyd sawl cofeb i gofnodi'r garreg filltir hon yn hanes y Wladfa. Cryfhaodd y cyswllt rhwng Ariannin a Chymru o ganlyniad i'r sylw a roddwyd i'r achlysur hwn, a dangosodd rhai o ddisgynyddion y Cymry eu bod awyddus i adfywio'r iaith Gymraeg ym Mhatagonia.



Cofgolofn yn Nhrelew i gofio canmlwyddiant y Wladfa Gymreig, 2005

Ym 1997, lansiwyd Cynllun yr Iaith Gymraeg yn nhalaith Chubut. Gweinyddir y Cynllun gan y Cyngor Prydeinig gyda chefnogaeth Canolfan Dysgu Cymraeg, Prifysgol Caerdydd a Chymdeithas Cymru-Ariannin, ac mae'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Prif amcan y cynllun yw darparu cefnogaeth ieithyddol arbenigol yn yr ymgais i adfywio'r iaith Gymraeg yn Chubut. Cymaint oedd llwyddiant y Cynllun fel ei fod wedi denu diddordeb unigolion nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad teuluol • â Chymru. Yn 2005 roedd 62 o ddosbarthiadau Cymraeg yn y dalaith, a gosodwyd Cymraeg ar y cwricwlwm mewn dwy ysgol gynradd a dau goleg yn nalgylch Gaiman. Bu 6 Mawrth 2006 yn ddiwrnod pwysig yn hanes adfer yr iaith Gymraeg yn y Wladfa – agorwyd Ysgol yr Hendre, Trelew, i addysgu plant rhwng tair a phump oed trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Sbaeneg. Roedd awdurdodau addysg talaith Chubut nid yn unig yn awdurdodi sefydlu'r ysgol hon, ond hefyd yn cefnogi ei hamcanion.



Ysgol Uwchradd Gaiman - Coleg Camwy, 2005

Ers ei sefydlu ym 1939, mae Cymdeithas Cymru-Ariannin wedi bod yn ddolen gyswllt bwysig rhwng Cymru a Phatagonia. Mae'n gymdeithas elusennol a daw ei hincwm yn gyfan gwbl oddi wrth ei haelodau. Defnyddir yr arian i hyrwyddo'r cysylltiad Cymreig drwy noddi teithiau cyfnewid i athrawon, myfyrwyr a gweinidogion. Noddir myfyrwyr o Batagonia i fynychu cyrsiau Cymraeg yn Llanbedr Pont Steffan bob haf. Hefyd, noddir cystadleuaeth flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol a sefydliadau addysgol ym Mhatagonia.

Mae ffrwyth llafur yr ymdrechion i adfer a chynnal yr iaith Gymraeg ym Mhatagonia i'w gweld yn amlwg. Yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn 2000, derbyniodd Sandra De Pol, athrawes ac un o olygyddion y papur Cymraeg-Archentaidd 'Llais yr Andes', wobwr Dysgwraig y Flwyddyn. Ym marn Sandra de Pol, mae'n bwysig fod plant Chubut yn cael cyfle i 'wybod a mwynhau hanes a diwylliant eu perthnasau', a dywedodd fod yr iaith Gymraeg, yn ei hachos hithau, wedi 'agor drws i fywyd newydd'.

Ffynonellau

R. Bryn Williams, Y Wladfa (Caerdydd, 1962)

Tasg 1. Y goron

Pa symbolau o Gymru neu o Gymreictod a welwch ar y goron hon?



The crown of the Welsh Settlement's Eisteddfod

Tasg 2. Diwylliant Cymreig ym Mhatagonia heddiw

Defnyddiwch wefannau eraill i ymchwilio i ddiwylliant Cymreig ym Mhatagonia heddiw.

Tasg 3. Cymreictod

Beth yw Cymreictod?

Cwblhewch y daflen waith - 'Beth yw Cymreictod?'

Tasg 4. Diwylliant

A yw diwylliant yn perthyn i le penodol?

Tasg 5. Hunaniaeth y genedl

A yw'r iaith Gymraeg yn gyfrwng effeithiol i gyfleu hunaniaeth y genedl Gymreig?

Cwblhewch y daflen waith - 'Yr Iaith Gymraeg'

Tasg 6. Arferion Cymreig

A yw hi'n bosib cadw arferion Cymreig heb yr iaith?

Cwblhewch y daflen waith - 'Yr Iaith Gymraeg'

Tasg 7. Cymreig

Ai eich nodweddion diwylliannol sy'n eich gwneud yn Gymreig?

Cwblhewch y daflen waith - 'Yr Iaith Gymraeg'

Beth yw Cymreictod?



Yr Iaith Gymraeg

cadw arferion



cyfleu hunaniaeth



nodweddion diwylliannol

